Dogfen Reoleiddio
POLISÏAU A GWEITHDREFNAU

Polisi Dynodi

Cymeradwywyd y fersiwn (1) hon o Bolisi Dynodi Cymwysterau Cymru gan y Bwrdd Rheoli ar 17 Ionawr 2018.

Mae adran 47 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru (y cyfeirir ato wedi hynny fel 'ni') lunio datganiad polisi sy'n nodi ei swyddogaethau, gan gynnwys ei swyddogaethau o ran dynodi.[1] Mae'n rhaid i'r datganiad polisi gynnwys gwybodaeth am faterion sy'n debygol o gael eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid dynodi math o gymhwyster o dan adran 29, wrth bennu pryd y daw dynodiad o'r fath i rym ac wrth benderfynu p'un a ddylid ei ddirymu.[2]

Byddwn yn adolygu datganiadau polisi ac, os ydym o'r farn ei bod yn briodol o ganlyniad i adolygiad, byddwn yn paratoi datganiadau diwygiedig. Byddwn yn adolygu'r ddogfen hon o leiaf bob 3 blynedd. Gallai adolygiad o'r fath ystyried effeithiolrwydd y polisi ac a yw'n parhau i fod yn gymwys. Disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gynnal erbyn mis Ionawr 2021 fan bellaf.

Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i policy@qualificationswales.org.

[1]Adran 47(1)(c), Deddf Cymwysterau Cymru 2015.
[2]Adran 47(2)(b), Deddf Cymwysterau Cymru 2016.

Egwyddorion Cyffredinol y Polisi Dynodi

Mae'r polisi hwn yn esbonio sut rydym yn arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â dynodi cymwysterau. Pan fydd corff dyfarnu a gydnabyddir gennym yn awyddus i un o'i gymwysterau fod yn gymwys i'w ddefnyddio ar gyrsiau penodol a ariennir yn gyhoeddus, bydd y corff dyfarnu fel arfer yn gwneud cais i ni i ddynodi'r cymhwyster.

O dan Adran 34 o'r Ddeddf, os caiff cwrs ei ddarparu neu y bwriedir ei ddarparu gan neu ar ran ysgol, sefydliad neu gyflogwr ar gyfer disgyblion o dan 19 oed, ni ddylai'r cwrs hwnnw gael ei ariannu'n gyhoeddus oni bai ei fod yn arwain at gymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo neu ei ddynodi gennym ni. Yr unig eithriadau i hyn yw cyrsiau a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion eu hariannu'n gyhoeddus neu gyrsiau a gaiff eu darparu neu y bwriedir eu darparu ar gyfer person ag anawsterau dysgu. Yn yr achosion hynny, gall y cyrsiau fod yn rhai a ariennir yn gyhoeddus, er nad ydynt yn arwain at gymhwyster a ddynodwyd neu a gymeradwywyd gennym ni.

Nod y polisi hwn yw esbonio dynodi, y materion rydym yn debygol o'u hystyried wrth ddynodi cymwysterau a'n dull gweithredu o ran tynnu dynodiad yn ôl.

CYNNWYS

DIFFINIO DYNODI
MATERION Y BYDDWN YN EU HYSTYRIED WRTH BENDERFYNU DYNODI CYMWYSTERAU
GWEITHDREFNAU AR GYFER GWNEUD CAIS I DDYNODI CYMHWYSTER
AMSERLEN AR GYFER DYNODI
DIRYMU DYNODIAD
TREFNIADAU TROSIANNOL

Diffinio dynodi

1. Dynodi yw un o'r ffyrdd y gallwn ystyried cymhwyster yn un sy'n gymwys i'w ariannu'n gyhoeddus yng Nghymru. Dim ond cyrff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru a all wneud cais i ddynodi cymwysterau. I gael rhagor o wybodaeth am gael eich cydnabod gan Cymwysterau Cymru, cyfeiriwch at ein dogfen Polisi Cydnabod.

2. Mae cymwysterau dynodedig yn gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau addysg neu hyfforddiant a ariennir yn gyhoeddus i ddysgwyr o dan 19 oed. Er ein bod yn penderfynu, drwy ddynodi neu gymeradwyo cymwysterau, a yw cymhwyster yn

gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir, mae penderfyniadau ynghylch ariannu rhaglenni o'r fath yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru sy'n pennu ei pholisïau ar ariannu mathau gwahanol o ddarpariaeth. Dylai darparwyr dysgu gyfeirio at y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi iddynt wrth benderfynu pa gyrsiau neu raglenni dysgu i'w darparu.

3. Gall cyrff dyfarnu gyflwyno ceisiadau i ddynodi eu cymwysterau i ni. Byddwn yn asesu ceisiadau yn unol â'r polisi hwn a'r ddogfen Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau.

4. Fel arfer, mae cymwysterau dynodedig hefyd ar gael i ddysgwyr y tu allan i Gymru.

Materion y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid dynodi math o gymhwyster

5. Dim ond pan fyddwn yn fodlon bod y gofynion canlynol wedi'u bodloni y byddwn yn dynodi math o gymhwyster corff dyfarnu a gydnabyddir:

   i. byddai'n briodol i gwrs addysg neu hyfforddiant sy'n arwain at y cymhwyster hwnnw, ac a gaiff ei ddarparu neu y bwriedir ei ddarparu gan neu ar ran ysgol, sefydliad neu gyflogwr, gael ei ariannu'n gyhoeddus.

   ii. mae'n briodol ar hyn o bryd i ni ddynodi'r cymhwyster, yn hytrach na chyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar ei gyfer;

   iii. nid yw'r cymhwyster yr un peth â chymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo gennym ar hyn o bryd neu gymhwyster y mae gennym feini prawf cymeradwyo cyhoeddedig ar ei gyfer, neu'n debyg iddo. Wrth benderfynu hyn, gallwn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y canlynol ond nid y rhain yn unig:

      I. Maes pwnc sector
      II. Diben ac unrhyw is-ddiben
      III. Cynulleidfa (ystodau oedran a lefelau)

   iv. mae'r cymhwyster yn berthnasol i gyd-destun polisi sefydliadol a chyhoeddus Cymru;

   v. mae'r cymhwyster yn briodol ar gyfer ystodau oedran ymgeiswyr posibl. Yn arbennig, os caiff y cymhwyster ei ddyfarnu'n bennaf i gwrs addysg neu hyfforddiant a astudir fel arfer gan ddysgwyr cyn 16 oed, ni ddylai'r

cymhwyster dystio cymhwysedd galwedigaethol na chanolbwyntio ar alwedigaethau penodol;

vi. nid yw'r cymhwyster wedi'i gynnwys ar ein Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol ar hyn o bryd; ac

Gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais i ddynodi cymhwyster

6. Byddwn yn ystyried ceisiadau i ddynodi cymwysterau gan unrhyw gorff dyfarnu a gydnabyddir gennym.

7. Fel sy'n ofynnol o dan Adran 33 o'r Ddeddf, rydym yn cyhoeddi rheolau am geisiadau i ddynodi cymwysterau. Mae'r rheolau hyn yn nodi ar ba ffurf y dylai ceisiadau fod, beth y dylent ei gynnwys, ym mha ffordd y dylai cyrff dyfarnu eu cyflwyno a pha dystiolaeth y dylent eu darparu. Mae'r rheolau hyn i'w gweld yn ein dogfen Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau.

8. Efallai y byddwn yn cyhoeddi rheolau penodol am geisiadau i ddynodi mathau gwahanol o gymwysterau. Er enghraifft, dim ond i Gymwysterau TGAU y gall rhai rheolau fod yn gymwys.

9. Gall cyrff dyfarnu gyflwyno eu ceisiadau i ddynodi cymwysterau drwy ein cronfa ddata ar-lein, sef 'Cymwysterau yng Nghymru' (QiW) ar y wefan ganlynol:

    qiw.cymru

10. Wrth wneud cais i ddynodi cymhwyster, bydd angen i gorff dyfarnu ddarparu tystiolaeth sy'n dangos bod y cymhwyster yn bodloni gofynion penodol. Yng nghyd-destun dynodi, gallwn bennu gofynion tystiolaeth penodol sy'n gysylltiedig â chynllunio a datblygu cymwysterau, fel yr amlinellir yn Adran E o'r Amodau Cydnabod Safonol.

11. Yn gyffredinol, nid yw'r dystiolaeth a gaiff ei hasesu fel rhan o'r broses ddynodi yn dangos a yw corff dyfarnu yn cydymffurfio â'r Amodau Cydnabod Safonol neu beidio. Fodd bynnag, lle y bo'n briodol, gall y dystiolaeth hon lywio ein gweithgarwch monitro.

12. Gallwn ddynodi cymhwyster at ddiben penodol pan fyddwn o'r farn bod hynny'n briodol, a byddwn yn ystyried amgylchiadau'r dysgwyr y gellir dyfarnu'r cymhwyster dynodedig iddynt wrth wneud hynny. Er enghraifft, gallwn ddynodi rhai cymwysterau fel rhai nad ydynt yn gymwys i'w defnyddio heblaw ar

raglenni dysgu i ddysgwyr 18 oed a throsodd oherwydd gofynion iechyd a diogelwch.

13. Ar ôl i ni ystyried y cais a gyflwynwyd gan gorff dyfarnu i ddyfarnu cymhwyster, byddwn yn cysylltu â'r corff dyfarnu hwnnw drwy QiW i roi gwybod iddo am ein penderfyniad. Ar ôl i gymhwyster gael ei ddynodi gennym, bydd yn cael ei restru ar QiW fel cymhwyster o'r fath.

Amserlen ar gyfer dynodi

14. Pan fyddwn yn dynodi cymhwyster, byddwn yn dweud ar ba ddyddiad y mae'r dynodiad yn dod i rym ac ar ba ddyddiad y bydd y dynodiad yn gorffen. Gall dyddiad gorffen y dynodiad amrywio, gan ddibynnu a yw at ddibenion derbyn dysgwyr newydd neu ardystio dysgwyr.[3]

15. Gall corff dyfarnu nodi'r dyddiad gorffen sy'n well ganddo yn ei gais. Gall corff dyfarnu hefyd wneud cais i ehangu cyfnod dynodi cymhwyster cyn i'r dynodiad orffen.

16. Fel arfer, byddwn yn dynodi cymhwyster am uchafswm o bum mlynedd (hynny yw, bydd y dyddiad gorffen gweithredol bum mlynedd ar y mwyaf o'r dyddiad dechrau). Wrth benderfynu pa mor hir y bydd y dynodiad yn para, byddwn yn ystyried y materion canlynol:

    I. A yw'r cymhwyster yn rhan o waith adolygu neu ddiwygio'r sector[4];
    II. Canfyddiadau gweithgarwch rheoleiddio
    III. Dyddiad gorffen a ffefrir gan y corff dyfarnu, fel a nodir yn eu cais.

17. Yn ogystal, ni fydd cymhwyster yn un dynodedig mwyach os byddwn wedi rhoi'r gorau i gydnabod y corff dyfarnu sy'n ei ddarparu, neu os byddwn yn cymeradwyo'r cymhwyster wedi hynny. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn rhoi gwybod i'r corff dyfarnu ar ba ddyddiad y bydd y dynodiad yn gorffen.

---

[3] Er bod Deddf Cymwysterau Cymru yn nodi un dyddiad gorffen yn unig, ceir dau ddyddiad gorffen ar gyfer y dynodiad, sef Dyddiad Gorffen yr Ardystiad a'r Dyddiad Gorffen Gweithredol. Mae Dyddiad Gorffen Gweithredol dynodiad yn nodi na all unrhyw ddysgwyr newydd gofrestru/sefyll prawf ar gyfer cymhwyster ar ôl y dyddiad hwn. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr presennol gwblhau'r cymhwyster tan Ddyddiad Gorffen yr Ardystiad. Y Cyfnod Ardystio yw'r enw a roddir ar yr amser rhwng y Dyddiad Gorffen Gweithredol a Dyddiad Gorffen yr Ardystiad. Mae Dyddiad Gorffen yr Ardystiad yn golygu bod y cymhwyster wedi gorffen ar ôl y dyddiad hwn. Ni chaiff y cymhwyster ei ddyfarnu i unrhyw ddysgwyr ac ni fydd unrhyw ysgol na choleg yn cael arian cyhoeddus i'w addysgu ar ôl y dyddiad hwn.

[4] Mae Cymwysterau Cymru yn adolygu cymwysterau'n rheolaidd o ran sectorau economaidd penodol. Gall yr adolygiadau hyn arwain at benderfyniadau sy'n ceisio osgoi achosion o ddyblygu yn y sector penodol hwnnw. I gael rhagor o wybodaeth am ein hadolygiadau o'r sector, gweler ein Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol

18. Gall corff dyfarnu hefyd wneud cais i ehangu cyfnod dynodi cymhwyster neu dynnu'r dynodiad yn ôl cyn iddo orffen.

Dirymu dynodiad

19. O dan Adran 32 (Dirymu Dynodiadau Adran 29) o'r Ddeddf, gallwn ddiddymu dynodiad adran 29.

20. Wrth benderfynu a ddylid dirymu dynodiad, byddwn yn ystyried y materion canlynol:

    i. p'un a ydym yn darganfod, ar ôl dechrau'r dynodiad, fod cymhwyster dynodedig yr un peth â chymhwyster rydym wedi'i gymeradwyo eisoes neu'n debyg iddo, neu sydd wedi'i restru ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol;
    ii. p'un a yw'r cymhwyster dynodedig yr un peth â chymhwyster rydym wedi'i gymeradwyo ers y dyddiad gwreiddiol pan wnaethom ddynodi'r cymhwyster (er enghraifft, pan fyddwn yn ceisio cyfyngu ar gymwysterau) neu'n debyg iddo;
    iii. p'un a ydym o'r farn bod corff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol ac rydym wedi tynnu ei gydnabyddiaeth yn ôl; neu
    iv. p'un a yw gofynion sgiliau mewn sector cyflogaeth perthnasol wedi newid yn sylweddol ers y dyddiad dynodi, fel y bydd yn effeithio'n negyddol ar werth y cymhwyster i ddefnyddwyr.

21. Os byddwn yn bwriadu dirymu dynodiad, byddwn yn rhoi hysbysiad o'n bwriad i wneud hynny i'r corff dyfarnu perthnasol. Bydd yr hysbysiad yn gwneud y canlynol:

    i. egluro pam rydym yn cynnig dirymu'r dynodiad; a
    ii. nodi dyddiad gorffen arfaethedig y dynodiad.

22. Bydd gan gorff dyfarnu sy'n cael hysbysiad o'n bwriad i ddirymu dynodiad y ddau opsiwn canlynol:

    i. Cyflwyno sylwadau a/neu wrthwynebiadau i Cymwysterau Cymru ynghylch y cynnig i roi'r cyfarwyddyd. Caiff y corff dyfarnu gyfnod nad yw'n llai nag 20 diwrnod gwaith i wneud hynny (o ddyddiad yr hysbysiad o fwriad) ac, wrth benderfynu p'un a ddylid rhoi'r cyfarwyddyd ai peidio, ystyriwn unrhyw sylwadau a wnaed gan y corff dyfarnu.

ii. Gwneud dim, ac os felly, bydd Cymwysterau Cymru yn aros tan fod y cyfnod dan sylw (sef 20 diwrnod gwaith o leiaf) wedi dod i ben, ac yna'n mynd ati i wneud penderfyniad terfynol ynghylch rhoi'r cyfarwyddyd ai peidio.

23. Ar ôl ystyried sylwadau'r corff dyfarnu perthnasol, os penderfynwn ddirymu dynodiad adran 29, byddwn yn rhoi gwybod iddo am ein penderfyniad a phryd y bydd y dynodiad yn cael ei ddirymu. Byddwn yn cyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad ar ein gwefan. Rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei roi cyn neu ar ôl yr 31ain o Ragfyr yn y flwyddyn y caiff y penderfyniad ei wneud. Ni fydd y dynodiad mewn grym mwyach ar y 1af o Fedi yn y flwyddyn ddilynol, sy'n golygu y bydd gan gorff dyfarnu isafswm o 8 mis rhwng yr adeg pan gafodd wybod am y dirymiad a'r adeg pan fydd yn dod i rym.

Trefniadau trosiannol

24. Pan fydd dynodiad yn gorffen yn gynt na'r disgwyl – er enghraifft, os caiff cymwysterau o'r math hwnnw eu cymeradwyo gennym wedi hynny – byddwn yn ystyried y trefniadau y mae angen eu rhoi ar waith i ddiogelu dysgwyr sydd eisoes yn astudio neu sy'n disgwyl astudio ar gyfer y cymhwyster. Er enghraifft, gall fod yn briodol yn ein barn ni barhau i ymdrin â chymhwyster fel un dynodedig tan ddyddiad a bennir gennym. Gallwn barhau i ddynodi cymwysterau yn y cyfnod rhwng cymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig a'i gyflwyno gyntaf.